

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 112 (Cy. 26)

**CYNLLUNIO SEILWAITH,
CYMRU**

Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu
Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy
(Diwygio) (Cymru) 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017, gorchymyn cydsyniad datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008, yn dilyn cais a wnaed yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchymynion Cydsyniad Datblygu) 2011 ar gyfer diwygiad ansylweddol o dan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r terfyn amser y mae rhaid cychwyn y datblygiad a awdurdodir gan y Gorchymyn o'i fewn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 112 (Cy. 26)

**CYNLLUNIO SEILWAITH,
CYMRU**

**Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu
Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy
(Diwygio) (Cymru) 2024**

Gwnaed 31 Ionawr 2024

Yn dod i rym 2 Chwefror 2024

Mae cais wedi ei wneud, o dan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008(1), i Weinidogion Cymru yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchymynion Cydsyniad Datblygu) 2011(2) ar gyfer newid ansylweddol i Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017(3).

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i effaith y newid ar Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 fel y'i diwygiwyd ac maent yn fodlon nad yw'r newid yn sylweddol.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y cais, yr ymatebion i'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori sydd yn ofynnol gan reoliadau 6 a 7 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchymynion Cydsyniad Datblygu) 2011, wedi penderfynu gwneud y newid a gynigir yn y cais.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2(1) a (9) o

-
- (1) 2008 p. 29. Diwygiwyd paragraff 2 gan baragraff 4 o Atodlen 8 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), gan baragraffau 1 a 72 o Atodlen 13 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), gan adran 28 o Ddeddf Seilwaith 2015 (p. 7), a chan baragraff 8(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).
- (2) O.S. 2011/2055. Gwnaed diwygiadau perthnasol i'r offeryn hwn gan O.S. 2012/635, ac O.S. 2015/760. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
- (3) O.S. 2017/330, fel y'i cywirwyd gan O.S. 2017/969. Gwnaed diwygiadau perthnasol i'r offeryn hwn gan O.S. 2021/1284.

Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2024 a daw i rym ar 2 Chwefror 2024.

Diwygio Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017

2.—(1) Mae Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 (“Gorchymyn 2017”) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 2 o Ran 2 o Atodlen 1 i Orchymyn 2017 rhodder “The authorised development must be commenced no later than 29 March 2026.”

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
31 Ionawr 2024